Cynhadledd Genedlaethol
Awtistiaeth Cymru
Hyrwyddo Lles Awtistig
National Autism Wales Conference
Promoting Autistic Wellbeing



**3rd Ebrill 2019**
**Stadiwm Liberty, Abertawe**

Dilynwch ni ar @ASDinfoWales
ac ymunwch â thrafodaeth y gynhadledd ar #promotingautisticwellbeing

www.ASDinfoWales.org.uk/NAWC2019

# ADRODDIAD GWERTHUSO

# ATODIADAU TECHNEGOL

CYNHADLEDD GENEDLAETHOL AWTISTIAETH CYMRU

“HYRWYDDO LLES AWTISTIG”


www.ASDinfoWales.co.uk
Llywodraeth Cymru Welsh Government
CLILC • WLGA
GIG Cymru NHS Wales
Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

**Atodiad Technegol Un** – Beth a ddysgwyd?

| **SYLWADAU CADARNHAOL** |
|---|

- Ystod eang o arbenigwyr a gwasanaethau arbenigol ar gael i'w defnyddio ar gyfer cyngor a chanllawiau ymarferol wrth fyw o ddydd i ddydd.
- Awgrymiadau ymarferol, cyngor a strategaethau gwych
- Roeddwn yn mwynhau elfennau ymarferol y gweithdai – roedd yr Ioga yn tawelu fy meddwl. Byddaf yn dal ati! Ac roedd yr wybodaeth gan Cos am heneiddio yn wych.
- Roeddwn wedi mwynhau'r ioga a'r gweithdai creadigol
- Er fy mod eisoes wedi cael diagnosis yn 53 mlwydd oed a fy mod yn weithiwr proffesiynol awtistig, nodi pa mor awtistig ydw i.
- Bod 'gofodau diogel' i oedolion Awtistig i gysylltu yn hynod bwysig ac yn angenrheidiol a bod canolbwyntio ar agweddau cadarnhaol yn wych.
- Angen cynllunio fel Aspie
- Gwahanol agweddau o Awtistiaeth
- Cynhadledd ar gyfer pobl gydag ASD yn fwy buddiol na chynhadledd ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda rhai gydag ASD (rwy'n weithiwr proffesiynol)
- Gwybodaeth ddefnyddiol iawn a dulliau i'w defnyddio yn y gweithle ac yn y gymuned wrth ryngweithio gydag ASD
- Ble i ganfod cymorth ar gyfer cyflogaeth, anogaeth gyda'r tasgau dyddiol
- Fy mod yn amau'n gryf fy mod yn awtistig (50 oed ond heb ddiagnosis ffurfiol, ond rwy'n bartner i unigolyn â diagnosis o awtistiaeth)
- Fel rhywun heb ddiagnosis o awtistiaeth ond sy'n ceisio sicrhau bod ymarferion / systemau (gwasanaethau iechyd meddwl) yn hygyrch ac yn 'gyfeillgar', mae clywed profiadau pobl yn hynod ddefnyddiol.
- Rhai elfennau penodol am anhwylderau bwyta. Syniadau o ran sut i gynnal digwyddiad sy'n gynhwysol i bobl awtistig.
- Wedi fy nghyflwyno i nifer o grwpiau a sefydliadau
- Rwyf wedi mwynhau heddiw, wedi dysgu llawer
- Rhyngdoriad, pecyn hunanofal
- Geirfa a diffiniadau amrywiol
- Nid wyf ar fy mhen fy hun
- Roedd y gweithdai a fynychais yn llawn gwybodaeth ac yn fuddiol. DBT – defnyddiol ac mae modd ei drosglwyddo ar gyfer fy arferion innau. Roedd y Cadeiryddion a oedd yn agor a chloi'r diwrnod yn wych.
- Roedd y sesiwn ar DBT a pherthnasau yn wych, byddaf yn defnyddio'r acronymau hyn. Mae gwrthdaro rhwng gwneud yr hyn yr ydw i eisiau a pheidio â brifo teimladau pobl yn broblem real.
- Mae pobl yn malio am awtistiaeth
- Rydym yn newydd i'r byd hwn felly mae'r diwrnod cyfan wedi bod yn ddiddorol iawn. Dysgu am nodweddion cyffredin a gwahaniaethau. Hoffwn ddod eto.
- Dulliau ar gyfer trafodaethau / rhyngweithio llwyddiannus gydag eraill

- Deallais fod ffyrdd gwahanol o drafod awtistiaeth a sut mae'n effeithio ar bobl.
- Wedi mwynhau'r seminar 'Grymuso rhyngbersonol'
- Faint o gefnogaeth sydd ar gael yn y Brifysgol. DBT.
- Nad fi yw'r unig un sy'n dioddef
- Mewnwelediad gwych i fywyd fel actor awtistig (Jules)
- Fel rhywun 60 oed sydd newydd gael diagnosis, dysgais fod fy nodweddion yn rhan o fy awtistiaeth - yn enwedig swyddogaeth weithredol. Gallaf yn awr ddatblygu'r gallu i faddau i mi fy hun yn lle cosbi fy hun drwy'r amser. Rwyf newydd ddysgu bod pigo'r croen yn ysgogiad!
- Y cymorth a'r elusennau sydd ar gael ar gyfer oedolion gydag ASD. Mae'n iawn bod yn chi eich hun
- Cyfarfod pobl, gwybodaeth fuddiol a defnyddiol
- Roedd dibynadwyedd, tosturi a gonestrwydd yn araith Emma Durman yn gymorth i mi fel rhywun sydd wedi cael diagnosis o awtistiaeth yn hwyr, rwy'n teimlo fy mod yn perthyn yn dda i'm cymuned newydd.
- Ymddengys bod Ewyllys Gwleidyddol i alluogi gwasanaethau awtistiaeth i oedolion yn bodoli yng Nghymru. Mae Cymuned Awtistig cadarnhaol mewn ffurf genedigol yng Nghymru. Mae cymorth ar gael i bartneriaid.
- Sgiliau a strategaethau newydd i'm cynorthwyo gyda fy lles
- Pob agwedd yn llawn gwybodaeth
- Mewnwelediad i sut y mae'n effeithio ar bobl
- Yr holl siaradwyr yn rhagorol. Wedi'i gadeirio'n dda!
- Bod y llywodraeth yn ceisio gwella'r gwasanaethau a'r gefnogaeth ar gyfer pobl ar y sbectrwm. Rwyf hefyd wedi derbyn rhai syniadau a all fod yn gymorth yn fy ngweithle.
- Bod angen mwy o ymwybyddiaeth o'r heriau i les y mae oedolion awtistig yn eu hwynebu (yn enwedig gydag oedolion 'gweithrediad uchel', yn enwedig benyw sy'n cuddio)
- Roedd y gweithdy gyda Dr. Jacinta Tan yn llawn gwybodaeth ac fe ddysgais lawer o bethau. Roedd y gweithdy cyflogaeth gyda Keith Ingram yn dda, roedd yn ddifyrrus ac yn cysylltu'n dda â'r gynulleidfa.
- Sut i oresgyn rhwystrau a phroblemau ar ôl diagnosis.
- Nid yw'n ddedfryd marwolaeth! Roeddwn yn teimlo'n gyfrifol ac yn euog, fy mai i
- Mae Awtistiaeth yn rhywbeth i'w groesawu gyda'r gefnogaeth a'r amgylchedd cywir.
- Nad ydw i ar fy mhen fy hun! Bod pethau y gallaf eu gwneud i'm helpu i ymdopi.
- Sut i gyfathrebu'n well. Sut i ymlacio'n well. Sut i gyflawni pethau'n well.
- Deall y broses greadigol.
- Helpu pobl i ddelio gyda materion/anawsterau bwyta, rheoli gorbryder, materion cyflogaeth, cefnogaeth Prifysgol
- Derbyn fy niagnosis (hwyr) drwy gysylltu â rhai o'r pethau ddywedodd y siaradwr awtistig. Roedd yn gathartig.
- Technegau a strategaethau
- Rheoli straen a gwella iechyd
- Mae mwy o bobl awtistig yn agos nag y sylweddolais
- Mwy am hyrwyddo fy lles fy hun
- Mae'r gair 'A' allan yn y byd, mwy i'w wneud ond yn falch ei fod allan yno.
- Rwyf wedi derbyn mwy o wybodaeth am awtistiaeth a'i effeithiau ar unigolion
- Yr actor Jules Robertson, ei daith a'i yrfa

- Bod angen i ni dynnu'r gair 'anhwylder' o'n gwasanaeth
- Yr ystod eang o gefnogaeth sydd ar gael heddiw a lefel yr ymgysylltiad
- Dylech allu dderbyn cefnogaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnoch pan fo'r angen a dylai eich cyfoedion eich parchu
- Mwy o ymwybyddiaeth o awtistiaeth a'r wybodaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael
- Sut i weithio yn y byd
- Sut i gefnogi rhywun i fynd i'r brifysgol
- Rwyf wedi derbyn mwy o wybodaeth am awtistiaeth a'i effeithiau ar unigolion
- Mwy o les a sut i newid y ffordd yr wyf yn edrych ar fy hun. Ac er bod rhwystrau, nid yw'n bwysig, os oes gennych chi hyder gallwch wneud unrhyw beth.
- Ein hamrywiaeth o fewn ein hunain
- Mae'r digwyddiad wedi bod yn fuddiol ar gyfer rhwydweithio ar gyfer y grŵp yr ydym yn ei gynnal 'ASD Connect'. Mae hyn wedi rhoi gwybodaeth i'w rhannu gyda rhiant ofalwyr a phobl ifanc yn y grŵp.
- Rhoddodd y gweithdy grymuso rhyngbersonol ddulliau defnyddiol i mi eu defnyddio gyda phobl awtistig.
- Rwyf wedi derbyn gwell dealltwriaeth o brofiadau personol pobl a'r anawsterau y maent wedi'u goresgyn.
- Gwell dealltwriaeth o safbwynt pobl awtistig. Strategaethau hunangymorth. Mwy o ddealltwriaeth o ASD, ADHD ac anhwylder bwyta.

## SYLWADAU NEGYDDOL

- Roedd rhai pwyntiau wedi'u cyflwyno y byddaf yn eu hymchwilio ymhellach, ond ni fyddwn yn dweud fy mod wedi dysgu unrhyw beth – roedd y gweithdai yn rhy fyr i roi mwy na throsolwg sylfaenol
- DBT. Fodd bynnag, roedd yn rhy fyr, gan frysio drwyddo, ddim yn ddigon trylwyr
- Angen mwy o ddewisiadau heb glwten / cynnyrch llaeth a dewisiadau figan i ginio
- Dim byd newydd
- Dim llawer

## **Atodaid Technegol Dau** – Beth oedd fwyaf buddiol?

**SYLWADAU CADARNHAOL**

- Roedd yr holl siaradwyr a'r gweithdai ar gyfer pobl awtistig hŷn wedi'u cyflwyno'n dda gyda chynnwys priodol.
- Cos, Rhi a Lucy Wells
- Ioga
- Gweithdy creadigrwydd
- Roedd Emma Durman yn ysbrydoliaeth
- Rhy anodd ceisio nodi un peth, llwyth o bethau da
- Wrth fy modd â'r rhaglen, y wybodaeth, yr ystafell dawel / synhwyrau a'r ystafell i dawelu, roedd yn gadarnhaol iawn ar gyfer nifer o'r rhai a oedd yn bresennol
- Gwelliannau i'ch perthnasau
- Cyfarfod pobl o bob math sydd ar y sbectrwm!
- Y gweithdai
- Roedd y siaradwr cyntaf yn wych, llawn ysbrydoliaeth ond hefyd yn realistig. Gwir enghraifft o gyd-gynhyrchu
- Gwestai o Holby City yn wych
- Gweithdy cyflawni pethau
- Anerchiad Emma Durman
- Gweithdai, anerchiad Emma Durman, yr ystafell synhwyrau yn dda ond nid oedd llawer o amser i'w dreulio yno
- Sylwadau personol pobl am fyw gydag awtistiaeth. Emma Durman – mewnwelediad gwych i or-bryder
- Rhwydweithio gyda gweithwyr proffesiynol. Yr holl bobl cywir mewn un lleoliad!
- Heneiddio'n dda, i fod yn ganol oed a thu hwnt
- Y siaradwyr a'r gweithdy gorbryder
- Yr araith (nid y gweithdy) am ddulliau i ymdopi
- Agwedd cymdeithasol
- Prif siaradwyr y bore a'r prynhawn yn rhagorol - roedd yn werth dod i wrando arnyn nhw yn unig
- Roeddent yn llawn gwybodaeth ac yn ddiddorol
- Roedd Emma Durman yn wych, mae fy mhartner newydd dderbyn diagnosis yn 67 ac roedd yn ei dagrau. Roedd yn ddefnyddiol iawn i ni gael clywed bod unigolyn arall wedi profi'r un profiadau.
- 4 gweithdy, Fy Nhaith i fod yn Actor gan Jules, 10 sgil ar gyfer bywyd - Meddyg Awtistiaeth Simon
- Wedi mwynhau araith Emma ac Amara a Geraint – oll wedi siarad yn dda am eu profiadau ac yn rhoi mwy o ddealltwriaeth i ni
- Cyfarfod oedolion eraill sy'n awtistig
- Gweithdy grymuso
- Roedd araith Emma Durman yn ddefnyddiol iawn ac yn ysbrydoledig a'm cynorthwyo i roi popeth mewn trefn yn fy meddwl. Roeddwn wir yn ei werthfawrogi. Hefyd, roeddwn yn uniaethu'n dda â'r hyn a ddywedodd Jules.
- Siaradwyr yn y gweithdai
- Da iawn Emma Durman
- Roedd y gweithdai'n llawn gwybodaeth. Roedd siaradwr y prynhawn yn ddiddorol iawn.

- Y gweithdy anhwylder bwyta
- Y gweithdai ar DBT a chreadigrwydd
- Anodd dewis! Araith Emma Durman yn y bore, oherwydd roeddwn yn uniaethu â'i stori. Ond roedd y gweithdai'n dda iawn hefyd- yn enwedig 10 Sgil ar gyfer Bywyd a Chyflawni Pethau
- Gweithdy ffynnu yn y brifysgol, araith Emma Durman, canllaw awtistig i greadigrwydd
- Heneiddio gydag Awtistiaeth gyda Cos Michael, araith Emma Durman - gwych, gweithdy canllaw awtistig i greadigrwydd yn wych!
- Rhy gynnar gwybod
- Gweithdy grymuso rhyng bersonol. Roedd Jules yn wych ac yn ysbrydoledig.
- Roedd stori'r siaradwr yn fy ysbrydoli
- Cyd-gadeiryddion yn wych, ac Emma
- Roedd Emma Durman yn ysbrydoliaeth ac yn debyg i rinweddau fy merch
- Alcohol ac awtistiaeth, DBT ac awtistiaeth
- Jacinta Tan – Cysylltiadau gydag anawsterau bwyta yn oedolion gan oedolion awtistig - prin iawn y caiff ei gydnabod
- Roedd y taflenni wedi'u hargraffu'n ddefnyddiol, roeddwn yn gwerthfawrogi'r rhain. Fe wnes nodiadau, ond yn y gweithdy 'Awtistiaeth a Bwyta', roedd yn ddefnyddiol gan fod gwybodaeth ychwanegol ar y taflenni.
- Prif sgyrsiau a gweithdai'r prynhawn
- Cos Michael, Emma – siaradwr cychwynnol, llawer o wybodaeth
- Ffynnu yn y Brifysgol (y ddau hwylusydd), araith llawn ysbrydoliaeth gan Emma Durman, y taflenni
- Wedi mwynhau Cos Michael a Rhi Lloyd-Williams. Y ddau yn wych ac yn ysbrydoliaeth.
- Gweithdai – roedd y rhain yn bragmatig ac yn arwain at ddysgu sgiliau newydd.
- Rwy'n rhiant i unigolyn awtistig ifanc. Roedd y ddau siaradwr a'r gweithdai yn ddiddorol.
- Canllaw Awtistig i Greadigrwydd
- Gweithdai, araith Jules Robertson
- Gweithdy sgiliau bywyd – mewnbwn Simon yn benodol, ond hefyd y cyngor defnyddiol ac ymarferol. Cyflwyniad Emma Durman
- Safbwynt awtistig
- Gweithdy heneiddio'n dda
- Gorbryder
- Gweithdai, gwrando ar brofiadau Awtistig
- Gwella cefnogaeth gydag alcohol ar gyfer pobl, Jules Robertson, Emma Durman
- Gweithdai – DBT ac Awtistiaeth, araith ysbrydoledig Emma Durman
- Edrych ymlaen at wrando a dysgu
- Trechu
- Gweithdy 1 Sesiwn fore 1, Gweithdy 6 sesiwn fore 2, Gweithdy 11 sesiwn y prynhawn
- Dysgu am awtistiaeth
- Emma Durman yn siarad ar y dechrau
- Roedd y siaradwyr a'r gweithdai yn fuddiol
- Roedd yr holl weithdai'n fuddiol heblaw'r ioga. Wedi mwynhau clywed stori Jules
- Roedd araith Emma Durman yn dda iawn. Wrth fy modd â'r araith am rymuso ac roedd yr un am y Brifysgol yn

llawn gwybodaeth. Edrych ymlaen i weld beth fydd yn cael ei gynnig yn y prynhawn.

- Roedd araith Emma Durman yn fy atgoffa o anawsterau unigolion yn y system ysgolion
- Gwrando ar wahanol siaradwyr

**SYLWADAU NEGYDDOL**

- Dim sylwadau negyddol.

**Atodiad Technegol Tri** – Beth allem ei newid?

| Arlwyo | Lleoliad ac Arwyddion | Amser | Sylwadau eraill | Gweithdai a siaradwyr |
|---|---|---|---|---|
| • Byddai'n ddefnyddiol pe bai detholiad o fwyd / diodydd yn yr ystafell dawel gan fod y neuadd ginio yn hynod swnllyd Roedd yn siom oherwydd roeddwn yn edrych ymlaen at wrando ar y delyn mewn tawelwch, ond dim ond haen arall o sŵn ydoedd.<br>• Yn anffodus nid oeddwn yn gallu bwyta llawer o ginio - dim llawer o amrywiaeth<br>• Nid oedd y staff gweini'n gwybod pa eitemau yn y bwffe oedd yn addas i figan. | • Lleoliad yn fy ofni<br>• Roedd y lleoliad ychydig yn fawr ac nid oedd digon o gyfarwyddiadau. Es ar goll ar y dechrau, cofrestru fy enw. Dim digon o ardaloedd eistedd preifat yn ystod amser cinio. Nid oedd siaradwyr yn defnyddio meicroffon i siarad yn yr ystafelloedd eraill. Bwyd, arwyddion, byddai labeli clir yn ddefnyddiol.<br>• Efallai mwy o lefydd i eistedd i fwyta cinio<br>• Mwy o fapiau /arwyddion i leoliadau<br>• Arwyddion – byddai'n haws | • Amseroedd yn anodd eu rheoli mewn unrhyw ddigwyddiad, ond roedd yn beth bach iawn ac roeddwn wedi mwynhau'r diwrnod, ac yn edrych ymlaen at y nesaf!<br>• Ychydig mwy o egwyl rhwng sesiynau'r gweithdy ar gyfer seibiant ac i dawelu<br>• Roedd y ddau brif sesiwn wedi dechrau'n hwyr a gorffen yn hwyr ac felly'n effeithio ar y gweithdai – dylai bod y gweithdai yn brif ganolbwynt.<br>• Oedi cyn dechrau gweithdy technoleg ddigidol. | • Dim<br>• Amherthnasol<br>• Dim<br>• Roedd un o'r siaradwyr wedi cyfeirio ataf yn y rhyw anghywir, ond ni wnaeth ddifetha'r diwrnod<br>• Gwybod bod ffrindiau, gan gynnwys y trefnwyr wedi'u 'glanhau'. Gweld lefel y gefnogaeth yr oedd Jules Robertson wedi'i gael – byddai cynnwys pobl Awtistig gydag anableddau dysgu'n briodol.<br>• Bathodynnau - roeddwn yn ofni siarad â phobl gan nad wyf wedi arfer chwilio am fathodynnau ac | • Roeddwn wedi mwynhau'r ioga ond roedd yn fanwl iawn ac nid oeddwn wedi disgwyl hynny<br>• Mae gweithdy'n cynnwys cyfranogiad- nid gwrando gyda 5 munud o gyfranogiad ar y diwedd. Araith ydi hynny<br>• Bod yn fwy cynhwysol. Mwy o ryngweithio yn y gweithdai – prin iawn oedd y rhyngweithio<br>• Roedd y sesiwn ar weithgarwch corfforol yn eithaf anodd i mi. Nid oeddwn yn gwybod lle i fynd na sut i giwio. Roedd yr ystafell yn oer a |

| Arlwyo | Lleoliad ac Arwyddion | Amser | Sylwadau eraill | Gweithdai a siaradwyr |
|---|---|---|---|---|
| Dylid cael labeli clir ar y bwffe y tro nesaf.<br>• Lluniaeth, er ei fod yn hyfryd, nid oedd yn gyfeillgar i awtistiaeth. Myffins gyda hadau a darnau o felon gyda hadau<br>• Mwy o fwyd poeth? Pwdin?<br>• Y ffenigl – roeddwn yn credu mai artisiog ydoedd!<br>• Roedd Lolfa Morfa yn swnllyd ac nid oedd y bwyd yn gyfeillgar i'r synhwyrau gan fod darnau bach yn y myffins<br>• Dim ond yr arlwyo – anwybyddwyd cais ASD am fwyd heb glwten<br>• Bwyd yn yr egwyl ddim yn wych, nid oedd y myffins yn addas, bwyd | canfod fy ffordd gyda mwy o arwyddion gweledol – byddai'n ddefnyddiol gwybod beth oedd y bwyd a'r diod | Wedi rhedeg yn hwyr. Ail sesiwn yn hwyr o ganlyniad.<br>• Diwrnod hir ar gyfer rhai sydd heb arfer â digwyddiadau o'r fath - ond rwy'n deall bod hyn yn anodd ei newid gan fod angen cynnwys llawer mewn ychydig o amser<br>• Dim digon o amser ar gyfer pob testun<br>• Dechrau am 9am | roeddwn ofn y byddwn yn siarad â rhywun 'coch' neu 'oren' drwy gamgymeriad.<br>• Gormod o siarad i mi ganolbwyntio a gormod o bobl<br>• Dim cwynion o gwbl!<br>• Dim<br>• Ystafell dawel yn bell o'r lleoliad cinio / prif lawr lle cynhaliwyd y digwyddiadau! Cyfeirio at y brif ystafell neu'r ardal dawel fel man amgen i'r 'ardal goffi' ar gyfer cynrychiolwyr gydag awtistiaeth.<br>• Cyfnod cofrestru hir iawn a allai fod wedi'i ddefnyddio'n well<br>• Mwy o arwyddion i ddangos y toiledau | pheiriannau'r offer chwyth yn uchel iawn. Byddai'n ddefnyddiol pe gellir meddwl mwy e.e. Rhannu'n grwpiau, arwain o amgylch y gweithgareddau ac ati<br>• Anodd ei osgoi ond roedd y siaradwyr a rhai o'r gweithdai a gynhaliwyd gan bobl nad ydynt yn awtistig ymhell o'u lle. Efallai bod angen gwell hyfforddiant. Roedd yn nodedig ein bod wedi mwynhau'r holl sgyrsiau gan unigolion gyda diagnosis o awtistiaeth.<br>• Roedd Vaughan Gething yn rhy ddifater! Yr un peth yn wir am Huw David!! Er |

| Arlwyo | Lleoliad ac Arwyddion | Amser | Sylwadau eraill | Gweithdai a siaradwyr |
|---|---|---|---|---|
| sbeislyd, ystafell swnllyd | | | • Taflenni ar gyfer yr holl weithdai gan mai dim ond 4 gweithdy y gallwn eu mynychu<br>• Nid oedd Grymuso Rhyngbersonol yn gwbl briodol. Prysurdeb amser cinio. Roedd pobl gyda rhubanau gwyrdd yn siarad yn yr ystafelloedd tawel yn ystod amser cinio, es yno i gael tawelwch!<br>• Roedd y sgriniau fideo yn rhy lachar- ni allwn edrych arnynt hyd yn oed gyda sbectol haul (roedd y taflunydd yn iawn)<br>• Ychwanegu cynllun llawr i'r pecyn<br>• Dim, roedd yn dda iawn<br>• Labelu te, coffi ac ati | bod cryn dipyn o gynnwys, roedd araith Emma'n rhy hir. Angen gweithiwr proffesiynol yn bresennol a chadw diddordeb ac amrywiaeth.<br>• Awtistiaeth a bwyta- gormod o ganolbwyntio ar rianta plant awtistig.<br>• Nid oeddwn wedi mwynhau sgwrs Holby City, nid oedd yn ddiddorol o gwbl. Ddim yn dda.<br>• Roedd y prif sgyrsiau yn para yn rhy hir gan olygu fy mod wedi peidio canolbwyntio ac roeddwn yn ddiflas a blinedig.<br>• Efallai y dylid cael mwy o weithgareddau |

| Arlwyo | Lleoliad ac Arwyddion | Amser | Sylwadau eraill | Gweithdai a siaradwyr |
|---|---|---|---|---|
| | | | Roedd yn rhaid i ni ddyfalu. Rheolau o ran cwestiynau yn ystod cyflwyniadau i ganiatáu llif.<br>• Dim rhyngweithio<br>• Mwy o gyfleoedd i fynd i'r toiled | gweledol neu ryngweithiol. Roedd yr araith yn rhy hir i'm mab!<br>• Gorddefnydd o dalfyriadau<br>• Mwy o amser i siaradwyr<br>• Awtistiaeth a bwyta. Roeddwn yn teimlo ychydig yn ddatgymalog, canolbwyntio ar blant a'r hyn sy'n 'normal' iddyn nhw neu beidio. Ddim yn canolbwyntio ar anawsterau bwyta mewn oedolion a sut i ymdopi.<br>• Anodd clywed ar adegau – meicroffonau mewn gweithdai a chlipiau ffilm Jules.<br>• O'r lle daethom ni roedd y lleoliad yn hynod anhygyrch. |

| Arlwyo | Lleoliad ac Arwyddion | Amser | Sylwadau eraill | Gweithdai a siaradwyr |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Dylai bod amser siarad y siaradwyr wedi'i nodi'n glir gan ei fod yn golygu bod pethau eraill yn dechrau'n hwyr ac roedd yn rhaid i mi adael yn gynnar er mwyn mynd adref. Nid oedd yr ioga ysgafn yn ysgafn. Dylai bod pethau wedi dechrau ar amser.<br>• Byddai gweithgaredd ymarferol ychwanegol yn dda. Rhyngweithio gyda thimau Dinas Abertawe a'r Gweilch yn wych. Sgwrs agoriadol yn rhy hir ar gyfer myfyrwyr.<br>• Mwy o weithgareddau<br>• Gweithdy 2 yn ddiflas a chollais |

| Arlwyo | Lleoliad ac Arwyddion | Amser | Sylwadau eraill | Gweithdai a siaradwyr |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ddiddordeb hanner ffordd drwy'r sesiwn |

## **Atodiad Technegol Pedwar** – Sylwadau Pellach

| Arlwyo | Lleoliad | Amser | Sylwadau eraill | Gweithdai a siaradwyr |
|---|---|---|---|---|
| • Mwy o ddewis o ddiodydd ar gyfer y rhai nad ydynt yn yfed diodydd poeth e.e. Diod ffrwythau a sudd ffrwythau. Darparodd y lleoliad hyn ar gais.<br>• Roedd rhai gweithdai wedi’u brysio am bod y sesiynau blaenorol wedi rhedeg yn hwyr. Roedd y bwyd yn dda ond dylai bod rhai eitemau wedi’u labelu (cynnwys y rholiau wedi’u llenwi).<br>• Dylai bod labeli clir ar y bwydydd i gyd - mae nifer o bobl awtistig yn osgoi bwydydd penodol neu mae ganddynt | • Lleoliad llai<br>• Byddai map yn dangos sut i gerdded yma o’r orsaf yn ddefnyddiol<br>• Roedd cynllunio da cyn y gynhadledd yn ddefnyddiol gan ei fod yn gymorth i ddod i adnabod lleoliad anghyfarwydd<br>• Dylai bod sesiynau’r gweithdai yn hirach gan eu bod yn rhy fyr i mi. Byddai’n ddefnyddiol cynnwys map yn y rhaglen. Roedd eraill wedi dweud hyn hefyd. Roedd yn ddryslyd | • Roedd amser yn brin? Sesiynau hirach<br>• Ychwanegu 5-10 munud i drosglwyddo rhwng y gweithgareddau a drefnwyd. Mae pobl eisiau oedi a siarad / gofyn cwestiwn rhwng y sesiynau ac rwy’n credu dyma pam fod rhai ohonynt wedi rhedeg yn hwyr – roeddent wedi dechrau’n hwyr.<br>• Byddai'r gweithdai wedi elwa o gael mwy o amser.<br>• Dechrau’n hwyrach<br>• Dylai bod y digwyddiad wedi | • Gwych, gwych gwych! Diolch yn fawr!<br>• Roedd bod ymysg cymaint o bobl awtistig yn hyfryd ac yn fy rhyddhau. Roedd yn ddiwrnod nodweddiadol o dderbyn. Diolch yn fawr iawn! GWNEWCH HYN ETO!<br>• Byddai darllediad byw yn wych ar gyfer rhai nad oeddent yn gallu mynychu’r digwyddiad<br>• Methu meddwl am unrhyw beth ar hyn o bryd<br>• Gormod o ddefnydd o iaith person cyntaf, labeli gweithredu, y | • Byddai sesiwn ar leihau annibendod yn ddefnyddiol<br>• Roedd rhai gweithdai wedi’u brysio am fod y sesiynau blaenorol wedi rhedeg yn hwyr. Roedd y bwyd yn dda ond dylai bod rhai eitemau wedi’u labelu (cynnwys y rholiau wedi’u llenwi).<br>• Elfen gadarnhaol oedd bod rhai gweithdai’n cael eu cynnal gan bobl awtistig<br>• Trafod ystadegau, effeithiau |

| Arlwyo | Lleoliad | Amser | Sylwadau eraill | Gweithdai a siaradwyr |
|---|---|---|---|---|
| bryder am flasu bwydydd newydd / anghyfarwydd - hefyd roedd y bwyd yn anarferol / cymhleth<br>• Ni hysbysebwyd y digwyddiad yn ddigon helaeth. Cefais wybod yn hwyr amdano ac rwy’n adnabod nifer a fyddai wedi elwa ohono. Labeli bwyd gwell – yn enwedig bwydydd figan /llysieuol<br>• Angen mwy o ddewisiadau heb glwten / cynnyrch llaeth a dewisiadau figan i ginio<br>• Roedd yn fy aflonyddu nad oedd Cynhadledd Awtistiaeth wedi ystyried anghenion yn y ddarpariaeth arlwyo. | canfod yr ystafell gywir gan nad oeddwn wedi bod i’r stadiwm o’r blaen.<br>• | dechrau ar amser gan fod panig a oeddwn yn mynd i gyrraedd adref ar amser, efallai y dylid rhoi cyfarwyddyd amser i’r siaradwyr. Cynnal mewn man hygyrch ar gyfer pobl nad ydynt yn gyrru. Efallai y dylid lleihau hyd yr areithiau yn y prynhawn, neu beidio cael araith o gwbl yn y prynhawn, felly byddai modd cynnal y gweithdai yn syth ar ôl cinio roedd yn gwneud y diwrnod / gweithdai’n fyrrach. Rwy'n deall mai cynhadledd ydyw ond os ydych yn cynnal gweithdai | term ‘ASD' (byddai ASC yn well) a’r gair ‘normal’ ar gyfer pobl nad ydynt yn awtistig.<br>• Roedd y delyn yn hyfryd amser cinio ond yn rhy uchel - dim angen seinydd<br>• Cadarnhewch eich bod wedi derbyn y cais yn gynt<br>• Wedi’i nodi fel digwyddiad cyntaf gwasanaeth newydd, roedd gwahardd rhai pobl awtistig yn fwriadol yn warthus ac ymrannol. O’r herwydd, mae’n rhan o’r broblem, nid y datrysiad. Mae fy mhlant a’m teulu yn cytuno, gan gynnwys un plentyn awtistig 12 oed.<br>• Mae’n ymddangos mai Jules oedd | seicolegol ac ati, a sut i adnabod eich bod yn gaeth i rywbeth a lle i gael cymorth. Mwy o wybodaeth, llai o feirniadaeth.<br>• Byddai’n ddefnyddiol nodi ar y dechrau bod yr holl ddeunydd ar gael ar y wefan. Roedd yr holl ystafelloedd yn ddigon mawr i gael mwy mewn gweithdai - ond roedd y gofrestr ar gyfer rhai ohonynt yn llawn. Rwy’n cyfaddef fy mod wedi sleifio i mewn i gefn un o'r rhai oeddwn eisiau ei wneud ac ni achosodd |

| Arlwyo | Lleoliad | Amser | Sylwadau eraill | Gweithdai a siaradwyr |
|---|---|---|---|---|
| Dywedodd Stadiwm Liberty wrthym am hyn!<br>• Byddai wedi bod yn ddefnyddiol clywed am awtistiaeth ac anhwylderau cysgu. Labeli ar y te a'r coffi.<br>• Nid oedd te ar gael yn gyflym yn ystod yr egwyl , roedd yn rhaid i mi aros gan olygu fy mod yn cyrraedd y gweithdy'n hwyr.<br>• Dewis cyfyngedig o fwyd a diod amser cinio. Dim ffrwythau amser cinio. Llawer o rholiau bara (heb labeli) a dim llawer o bethau eraill. Nid yw hyn yn dda ar gyfer rhai gydag anawsterau bwyta - sy'n gyffredin ymysg cynrychiolwyr awtistig. | | nid oes angen areithiau yn y bore A'R prynhawn. Fel y nodais mae'n gwneud y gweithdai'n fyrrach. Hefyd, gan fod y mwyafrif sydd yma yn awtistig, roedd y newidiadau yn boen yn enwedig y newidiadau i'r amseroedd.<br>• | uchafbwynt y gynhadledd, ond mae ef angen galluogwr creadigol – felly pam nad oedd pobl "gweithrediad uchel" yn cael mynychu'r gynhadledd? Safonau dwbl?<br>• Ni hysbysebwyd y digwyddiad yn ddigon helaeth. Cefais wybod yn hwyr amdano ac rwy'n adnabod nifer a fyddai wedi elwa ohono. Labeli bwyd gwell – yn enwedig bwydydd figan /llysieuol<br>• Bod yn fwy cynhwysol e.e. pobl gyda mwy nag un math o gyflwr, pobl o leiafrifoedd ethnig a lle nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. | unrhyw broblemau.<br>• Byddai wedi bod yn ddefnyddiol clywed am awtistiaeth ac anhwylderau cysgu. Labeli ar y te a'r coffi.<br>• Mwy o weithdai, pump nid pedwar. Hefyd y dewis o gofrestru'n hwyrach gan y gallwn fynd i'r gwaith yn lle cymryd amser i ffwrdd.<br>• Roedd sesiwn cyflawni pethau'n dda iawn<br>• Dylai bod labeli ar y bwyd. Dylai bod bathodynnau ar gortynnau gwddf yn rhai |

| Arlwyo | Lleoliad | Amser | Sylwadau eraill | Gweithdai a siaradwyr |
|---|---|---|---|---|
| • Dylai bod labeli ar y bwyd.<br>Dylai bod bathodynnau ar gortynnau gwddf yn rhai dwyochrog oherwydd maent yn troi ac yn mynd yn sownd.  Roeddwn yn teimlo bod araith Jules Robertson yn nawddoglyd a sarhaus.<br>• Roedd y bwyd yn dda iawn.<br>Byddai’n fuddiol cael mwy o lefydd i eistedd a bwyta.<br>• Ciwio am 5 munud a mwy i gael cinio, ond pan gyrhaeddais y bwyd roedd 3 person, 2 mewn topiau gwyrdd, wedi gwthio o’m blaen a chymryd eu bwyd tra bo ciwiau yno. Rhoddais wybod iddynt, dywedont | | | Roedd nifer o’m cyfeillion eisiau dod ond wedi’u heithrio.<br>• Efallai y dylid adolygu ffurflenni adborth.<br>Anodd llenwi ffurflenni fel hyn<br>• Archebwch y telynor eto!<br>Roedd yn wych!<br>• Mwy o arwyddion penodol i gyfleusterau teithio a pharcio.<br>Mwy o atgyfeirio yn y gynhadledd at wasanaethau / elusennau sy’n gallu cynorthwyo oedolion awtistig (fel arfer mae gwasanaethau ar gyfer teuluoedd gyda phlant awtistig / cyflyrau eraill sy’n cydfodoli)<br>Ni ddylid ei gynnal yn syth ar ôl digwyddiad ASD | dwyochrog oherwydd maent yn troi ac yn mynd yn sownd.<br>Roeddwn yn teimlo bod araith Jules Robertson yn nawddoglyd a sarhaus.<br>• Roedd y gweithdai’n llawn gwybodaeth a chymorth.<br>Daliwch ati gyda’r gwaith da.<br>• Roedd yn dda bod y pecyn croeso yn ddwyieithog ond nid oedd unrhyw ddefnydd o’r Gymraeg yn y gynhadledd-gallai / dylai bod o leiaf un gweithdy yn y Gymraeg<br>• Rwy'n credu dylai bod yr AC wedi aros ar ôl ei |

| Arlwyo | Lleoliad | Amser | Sylwadau eraill | Gweithdai a siaradwyr |
|---|---|---|---|---|
| nad oeddent yn rhan o’r digwyddiadau ond eu bod yn gweithio lawr grisiau ar gyfer y digwyddiad, nid wyf yn gwybod oes oedd hyn yn wir, gallent fod yn ceisio cael pryd am ddim. | | | Casnewydd – roedd hyn yn ormod – gwell cael diwrnod rhyngddynt!<br>• Roedd yn wych ac rwy'n falch fy mod wedi dod. Diolch yn fawr!<br>• Cael cornel 'cyfeillion' er mwyn i'r rhai sydd wedi dod ar eu pennau eu hunain, sydd eisiau rhwydweithio ond yn cael trafferthion, gael man i ymgynnull.<br>• Mae rhai pobl yn gas mewn rhai lleoedd yn gwneud hwyl am ben awtistiaeth | araith, drwy'r bore o leiaf gan fod y brif araith yn ddiddorol iawn<br>• Lego i ddangos creadigrwydd<br>• Roeddwn wedi mwynhau'r cyflwyniadau gan Gerraint ac Amara. Roeddent yn groesawgar a doniol. |

**Atodiad Technegol Pump** – Arolwg ôl-Gynhadledd

**Yr Hyn a Ddysgwyd?**

**SYLWADAU CADARNHAOL**

- Gwneud y mwyaf o greadigrwydd awtistig
- Gallwch fyw bywyd da gyda'r gefnogaeth gywir
- Bod cynadleddau ffurfiol yn fuddiol i'r rhai hynny sydd â chyflyrau penodol, nid dim ond i'r bobl broffesiynol sy'n eu trin/gweithio gyda nhw
- Gwych cael lle dynodedig i ddysgu am a dathlu lles Awtistiaeth, gwych cael rhannu profiadau a dysgu gyda phobl awtistig eraill, gwrando ar straeon pobl eraill a gallu uniaethu â nhw a dysgu ganddynt.
- Cyngor ar sut i reoli camweithrediad gweithredol a threfnu amser

**SYLWADAU NEGYDDOL**

- Nid oes unrhyw ddarpariaeth na chefnogaeth o hyd ar gyfer pobl awtistig sy'n mynd yn hŷn ac sydd wedi treulio eu bywyd cyfan yn ceisio cael eu gwerthfawrogi. Mae gweld rhywun ifanc, ysbrydoledig yn sefyll i fyny ac yn dweud y gallwch chi hefyd gyflawni os ydych yn rhoi eich meddwl ar y peth yn dorcalonnus i oedolion sydd wedi treulio'u bywydau'n ceisio gwneud hynny gan wynebu dim byd ond gwahaniaethu Roeddwn yn teimlo y byddai'r gynhadledd wedi bod yn fwy addas ar gyfer pobl 16-25, nid pobl 45+
- Dydi hi ddim yn dda gwahaniaethu a pheidio cynnwys popeth Roedd ymdeimlad o bwysau i ymddwyn mewn ffordd benodol yma (awtistiaeth lefel uchel)

**Beth Oedd Fwyaf Buddiol?**

**SYLWADAU CADARNHAOL**

- Gweithdai a rhwydweithio gyda phobl awtistig eraill
- Sgwrs am alcohol
- Gweld y buddion i'r cleient yr oeddwn yn eu cefnogi

- Roedd Emma o Autside yn wych, mi ges i groen gŵydd wrth wrando ar ei sgwrs, roeddwn yn gallu uniaethu â rhai o'i phrofiadau ac mae cael gwybod nad ydych ar eich pen eich hun yn eich grymuso
- Cyfarfod pobl eraill awtistig. Doedd dim un o’r gweithdai’n berthnasol ond roedd yn braf clywed pobl awtistig eraill yn sgwrsio am eu pynciau arbenigol yn y gweithdai
- Sesiwn y prynhawn ar sgiliau trefnu
- Roedd yr yoga’n dda
- Gweithdy bwyta/colli pwysau

**SYLWADAU NEGYDDOL**

- Nid oedd unrhyw sylwadau negyddol

## Beth y Byddem Wedi Gallu ei Newid?

| Lleoliad ac Arwyddion | Sylwadau eraill | Gweithdai a Siaradwyr |
|---|---|---|
| • Gwell arwyddion i'r gweithdai | • Roedd y trefniadau ymlaen llaw – cofrestru ar gyfer cyrsiau yn ddryslyd, doedd hi ddim yn glir pa gyrsiau yr oeddwn i wedi cofrestru ar eu cyfer<br>Byddai e-bost yn cadarnhau pa gyrsiau y cofrestrwyd ar eu cyfer yn datrys hyn. Mwy o ddewis o luniaeth e.e. diodydd oer ar gyfer pobl sydd ddim yn hoffi te a choffi<br>• Y ffaith nad oedd ar agor i bob oedolyn gydag awtistiaeth, roedd rhai pobl wedi’u heithrio o’r gynhadledd ac roedd hynny'n gwneud i mi deimlo'n annifyr<br>• Mae llawer o arolygon ymysg pobl awtistig wedi dangos bod y mwyafrif yn hoffi’r IFL ‘unigolyn awtistig’ yn hytrach na’r PFL ‘unigolyn gydag awtistiaeth’ felly roedd yn siom ond nid yn syndod clywed y rhan fwyaf o bobl broffesiynol yn defnyddio PFL. | • Llai o sŵn yn y lle bwffe. Pobl awtistig i siarad ar y pwnc o gyflogaeth i bobl awtistig<br>• Sgwrs ddigidol.<br>Synnwyr cyffredin a dweud y gwir. Wnes i ddim dysgu unrhyw beth newydd<br>• Roedd y ffaith bod y siaradwyr yn defnyddio uchelseinydd yn gwneud pethau’n anghyfforddus iawn yn y brif ystafell, yn enwedig gan fod y |

| Lleoliad ac Arwyddion | Sylwadau eraill | Gweithdai a Siaradwyr |
|---|---|---|
| | Gan gydnabod mai dewis personol yw hyn ac y dylid parchu dymuniadau unigolion, byddai'n ddefnyddiol edrych ar https://autisticnotweird.com/2018survey/fel un enghraifft yw hyn ond mae llawer mwy o safbwyntiau unigolion awtistig i'w gweld yn y cyfryngau cymdeithasol, does dim rhaid chwilio'n galed | Cadeirydd yn gweiddi drwy'r meicroffon. |

## Sylwadau Pellach

| Sylwadau eraill | Gweithdai a Siaradwyr |
|---|---|
| • Diolch am y cyfle gwych – gobeithio y daw hyn yn ddigwyddiad blynyddol.<br>• Roeddwn yn teimlo bod y 'digwyddiad' wedi'i anelu fwy at oedolion awtistig ifanc a'u gofalwyr.<br>Doedd y digwyddiad ddim yn addas i mi a deud y gwir. Dwi'n 50 oed ac wedi treulio fy mywyd yn ceisio dysgu sgiliau newydd i wneud yn siŵr fy mod i o werth i'r gweithlu, ond er hynny dwi'n dal i wynebu gwahaniaethau a chafodd hynny ddim ei daclo gan mai'r consensws cyffredinol ydi, "os 'da ni'n gweithio ddigon caled, gallwn lwyddo", o ganlyniad i hynny mi nes i adael y gynhadledd mewn dagrau ac yn teimlo fy mod i unwaith eto wedi cael fy mheintio allan o'r broblem. Yn lle'r agwedd gadarnhaol gan y niwron-nodweddiadol yn dweud wrthym ni y gallwn gyflawni os 'da ni'n trio, rydym ni angen o dro i dro clywed am gwahaniaethu yr ydym yn ei wynebu, neu byddwn yn cynnal digwyddiadau lle mae'r aelodau awtistig yn teimlo bod ganddynt lai o werth na phan gerddon nhw i mewn.<br>• Buaswn yn awgrymu darpariaeth ar gyfer y sbectrwm llawn o gyflyrau awtistig, roedd hon yn sioe wael. | • Roedd wedi'i anelu at begwn uchaf y sbectrwm, ac fel mam dau oedolyn ifanc sydd ar y pegwn isaf gadewais y gynhadledd yn teimlo'n eithaf digalon. Mae'n wych bod y siaradwyr wedi gallu cyflawni gymaint, ond roedd hyn hefyd yn amlygu pa mor wahanol ydi pethau ar y pegwn is.<br>• Strategaethau bywyd go iawn e.e. delio â thribiwnlysoedd budd-dal ac yn y blaen. |

| Sylwadau eraill | Gweithdai a Siaradwyr |
| --- | --- |
| • Mae’r negeseuon cymysg yr ydym yn eu derbyn am awtistiaeth yn cynnwys: bod pobl awtistig yn anabl ac mae arnynt angen bathodynnau glas (dyfarniad llys diweddar) ond wedyn mae'n “ddawn sy'n caniatáu i rywun weld drwy gelwyddau”, Greta T (ac os felly a yw'n anabledd o gwbl?)<br>Ond yn y gynhadledd hon dim ond pobl awtistig heb anableddau dysgu oedd wedi cael gwâdd – ac eto roedd ar y prif siaradwr angen gweithiwr cymorth er mwyn gallu bod yno. Os yw awtistiaeth yn ddawn yn hytrach nag amhariad yna roedd y gynhadledd hon yn cau rhai pobl awtistig allan am eu bod yn anabl.<br>• Yn gyffredinol roedd yn brofiad da, diolch | • Rhieni unigolion awtistig i siarad am sut y mae bod â phlentyn awtistig wedi newid/gwella eu bywyd. Hefyd sgyrsiau ar y diagnosis deuol o awtistiaeth ac iechyd meddwl<br>• Roedd y sesiwn ar Dechnoleg Gwybodaeth yn negyddol dros ben ac ni soniwyd o gwbl am ddefnydd pobl awtistig o Facebook a Twitter i rwydweithio. |